

# anthem.

## **PORTH ANTHEM – GALWAD AM WNEUTHURWYR Y PORTH**

### **Cefndir**

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad Llywodraeth Cymru a oedd yn archwilio ffyrdd i gynorthwyo addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Crewyd yr elusen er budd pobl ifanc 3–25 oed yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol cryf i bobl ifanc sy'n hybu hunanfynegiant, datblygiad personol a lles. Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaedd cerddorol.

Mae Anthem yn sbardun ar gyfer cerddoriaeth ieuencid yng Nghymru, yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn gwneud cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol, ac i ysbrydoli.

### **Porth Anthem**

Plattform digidol yw Porth Anthem a fydd yn 'bont' rhwng ieuencid cerddoriaeth Cymru a gwybodaeth a chyfleoedd yn ymwneud â'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd Porth Anthem yn wefan a fydd yn darparu cynnwys gwreiddiol ac wedi'i guradu fel blogiau, gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth a'r llwybrau gyrfa sydd ar gael, ac yn hysbysfwrdd ar gyfer rhaglenni creadigol a chyfleoedd ariannu cyfredol gyda sefydliadau eraill yng nghymuned gerddoriaeth Cymru.

Bydd Porth Anthem hefyd yn darparu rhwydwaith i ddefnyddwyr y wefan gysylltu â sefydliadau cerddoriaeth eraill ac ymysg defnyddwyr eraill drwy blatfformau trydydd parti fel Discord i ryngweithio ar-lein, Zoom i gynnal gweminarau ac Eventbrite i drefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb.

Bydd Porth Anthem yn cael ei yrru gan bobl ifanc sy'n weithredol yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

I grynhoi, bydd Porth Anthem yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Creu porth digidol sy'n galluogi'r defnyddwyr i ffurfio rhwydweithiau rhwng defnyddwyr ar-lein, cymheiriaid sy'n creu, a sefydliadau.
- Creu cyfleoedd i holl aelodau'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru gyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio.
- Darparu plattform digidol dwyieithog sy'n ddiddorol a hawdd ei ddefnyddio ac sy'n hygyrch i bob defnyddiwr.

## **Galwad am Wneuthurwyr y Porth**

Yr hydref yma, mae Anthem yn creu fersiwn Beta o'r Porth a fydd yn ein helpu i archwilio potensial y prosiect a phrofi sut mae cynnwys yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc.

Mae Anthem nawr yn galw am bobl i fynegi diddordeb – rhai sy'n guraduron a gwneuthurwyr sy'n seiliedig yng Nghymru, ac sydd â diddordeb mewn creu cynnwys hygyrch a phriodol i Borth Anthem.

Hoffem glywed gan weithwyr llawrydd sy'n ysgrifenyddwyr, gwneuthurwyr fideo, darlunwyr, cerddorion a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth a hoffai fod yn rhan o gymuned Gwneuthurwyr y Porth.

## **Sut bydd yn gweithio**

Ar ôl i ni gydgrynhoi'r ymatebion i'r alwad hon, byddwn yn disgwyl i Wneuthurwyr y Porth weithio fel hyn:

- Byddwn yn gofyn i Wneuthurwyr y Porth ymuno â grŵp WhatsApp Gwneuthurwyr y Porth.
- Dros y ddau fis nesaf, bydd Rheolwr Prosiect y Porth yn cyflwyno nifer o friffiau ar gyfer darnau penodol o gynnwys y bydd angen eu creu i'r Porth.
- Byddwn yn gofyn i Wneuthurwyr y Porth gyflwyno syniadau ar gyfer pob briff. Bydd Anthem yn darparu fformat syml i'r cyflwyniadau a bydd dyddiadau cau clir i bob briff.
- Bydd Anthem yn dewis syniadau ac wedyn yn eu comisiynu.
- Bydd ffi o £200 am bob comisiwn i gyflawni'r syniad, a bydd dyddiadau cau / hyd a lled y gwaith yn cael eu cytuno rhwng y gwneuthurwr a Rheolwr Prosiect y Porth.
- Rydym yn disgwyl comisiynu 20 o ddarnau o gynnwys ar gyfer y cam Beta yma o Borth Anthem.

## **Pa fath o gynnwys rydym yn chwilio amdano?**

Rydym ni eisiau cynnwys sy'n cael ei wneud gan y gymuned Gymraeg ar gyfer pobl ifanc o Gymru. Rydym yn chwilio'n benodol am ddeunydd lle mae pobl ifanc greadigol o'r gymuned gerddoriaeth bresennol yn trosglwyddo gwybodaeth y maent wedi'i hennill i'r genhedlaeth nesaf.

Dyma enghreifftiau o'r gwahanol fathau o gynnwys y byddwn yn edrych amdanynt:

- Cyngor ar gael eich gig gyntaf
- Cyngor ar reoli eich gyrfa
- Cyfweiliadau â gweithwyr proffesiynol ym myd cerddoriaeth i ddatgelu sut y cawson nhw eu rôl
- Erthyglau sy'n rhoi dolenni defnyddiol ar thema i helpu cerddorion ifanc ddod o hyd i gynnwys

Dyma enghreifftiau o'r gwahanol fformatau o gynnwys y byddwn yn edrych amdanynt:

- Fideos byr
- Blogiau
- Cynnwys sain
- Ffeithluniau
- Gweminarau
- Rhestrau

### Llinell amser fersiwn beta y Porth

Awst 2022	Galwad am Wneuthurwyr y Porth Lansio grŵp WhatsApp Y set gyntaf o friffiau yn cael ei chyflwyno i Wneuthurwyr y Porth Y gwaith yn cychwyn ar adeiladu Porth Anthem
Medi 2022	Datblygu Fersiwn Beta o Borth Anthem yn barod i'w phrofi Y cynnwys a grëwyd yn cael ei lanlwytho Ail set o friffiau yn cael ei chyflwyno i Wneuthurwyr y Porth
Hydref 2022	Dechrau profi Fersiwn Beta o Borth Anthem Lanlwytho rhagor o gynnwys

### Sut i wneud cais i fod yn un o Wneuthurwyr y Porth

Mae'r alwad hon yn galw am guraduron a gwneuthurwyr sydd wedi'u geni neu sy'n seiliedig yng Nghymru.

I ymateb i'r alwad hon a rhoi gwybod i ni bod gennych ddi-ddordeb mewn bod yn un o Wneuthurwyr y Porth, llenwch y ffurflen hon:

<https://airtable.com/shrqMz0VXanisrRvz>

Mae'r ffurflen yn gofyn tri chwestiwn syml ac mae'n cynnig y cyfle i chi rannu enghreifftiau o waith perthnasol.

**Dyddiad cau mynegi diddordeb: 12pm ar dydd Gwener Awst 26ain**